Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 471 IONAWR 2025 | AM DDIM

## CÔR TŶ TAWE YN DIDDANU

Dechreuodd rhaglen 2025 Cymdeithas Gymraeg Treforys gydag adloniant gan Gôr Tŷ Tawe, o dan arweiniad Bethan Wynne Phillips. Merch a'i gwreiddiau yn Nhreforys yw hi, yn wyres i'r athronydd Dewi Z Phillips.



Llun gan Hywel Davies

Canodd y côr eitemau gan John Rutter, Islwyn Ffowc Elis, Eric Jones, Karl Jenkins, trefniant Alun Guy o Y Cwm, Huw Chiswell a hanner dwsin o eitemau eraill.
Bydd y côr yn teithio i Lundain ganol Chwefror i ganu gyda Chôr y Boro, yng nghapel y Boro. Dyma daith gyntaf y côr ers i Bethan gymryd at yr awenau.

## LLYFR NEWYDD ANDREW GREEN

**-HEINI GRUFFUDD**

Cafodd llyfr newydd Andrew Green, Voices on the Path, ei lansio ym mis Rhagfyr yn y Mwmbwls. Hanes cerdded yng Nghymru sydd yn y llyfr.
Mae Andrew, a fu'n llyfrgellydd ym Mhrifysgol Abertawe, yna'n llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol am 14 blynedd, yn gerddwr o fri. Mae cofnod nifer o'i droeon cerdded i'w weld ar ei wefan, Gwallter.
Yn ei lyfr mae sôn am bererindodau, teithiau Gerallt Gymro, y porthmyn a chardotwyr. Mae tipyn o sylw i ymwelwyr â Chymru, yn enwedig y cyfnod rhamantaidd ond mae sôn hefyd am orymdeithiau cysylltiedig â phrotest, gan gynnwys y glowyr a chomin Greenham.





Yn ddiddorol prin yw'r sylw i gyfres Crwydro Siroedd Cymru am fod y crwydro'n digwydd mewn ceir yn bennaf yn hytrach nag ar droed gan yr awduron.
Mae gan Andrew nofel ddychanol seiliedig ar ei gyfnod ym mhrifysgol Abertawe, Rhwng y Silffoedd, ac mae ei gyfrol Cymru mewn 100 Gwrthrych, wedi'i gydnabod yn gampwaith.

## CWRDD COFFA EIRWEN DAVIES

**-HEINI GRUFFUDD**

Cynhaliwyd cwrdd coffa Eirwen Davies yng nghapel y Trinity ar y 7fed o Ionawr. Bu farw Eirwen ar y 12fed o Ragfyr, yn 98 oed.
Un o Graig Cefn Parc oedd Eirwen Jenkins. Magwyd hi yn Heol y Mynydd ac yng nghapel Pant y Crwys. Symudodd y teulu i res Vivian, Pontlasau, a champ iddi oedd dod yn fyfyrwraig yng ngholeg y Brifysgol, Abertawe, lle y cyfarfu â'i darpar ŵr, Huw Davies, a ddysgodd y Gymraeg o dan ei dylanwad. Graddiodd yn y Gymraeg a dod yn athrawes y Gymraeg yn ysgol ramadeg Dr Williams, Dolgellau, cyn dychwelyd i ardal Abertawe'n athrawes Gymraeg yn ysgol ramadeg y merched, Tregwyr.
Roedd gan Eiwen ddiddordeb byw yn hanes a llenyddiaeth Cymru. Cyhoeddodd dri llyfr, ar Helynt Beca, Gruffudd ap Cynan a John Frost. Enillodd yr olaf wobr Cyngor Llyfrau Cymru yn 1968, mewn cystadleuaeth i ysgrifennu llyfr i bobl ifanc ar rebel o Gymru.
Roedd Eirwen yn aelod brwd o eglwys Bethel, Sgeti ac o ddosbarth llenyddiaeth Gymraeg y Brifysgol. Roedd hi hefyd yn guradur llên gwerin a diwylliant Cymru yn Amgueddfa Abertawe, a bu'n arwain y gwaith o greu'r gegin Gymreig sy'n dal yn yr amgueddfa. Roedd Eirwen yn aelod o bwyllgorau Sefydliad Brenhinol De Cymru a oedd yn gyfrifol am yr amgueddfa.
Arweiniwyd y gwasanaeth coffa gan y gweinidog, y Parch Jill-Hailey Harries, a chynorthwywyd hi gan y Parch Meirion Evans, brawd Dr Glynwen Evans, a hwythau ymysg perthnasau Eirwen.






Llun: Eirwen yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed gyda'r dosbarth llenyddiaeth yn Nhŷ Tawe, yn 2016.

## COLLI RHAN O'R DREFORYS GYMRAEG

**-HEINI GRUFFUDD**

Collwyd darn o'r Dreforys Gymraeg draddodiadol pan fu farw Sheila Powell o Heol y Ficerdy. Llanwyd Capel y Nant, Clydach, i'r ymylon yn ei hangladd ar y 9fed o Ionawr, 2025.



Bu Sheila'n arweinydd cylch chwarae Mudiad Meithrin yn Nhreforys, yn aelod brwd o Ferched y Wawr, yn aelod o gymdeithas rhieni ac athrawon Ysgol Gymraeg Lôn-las, ac yn arweinydd grŵp eglwys a chymdeithas Capel y Nant.

Mynychodd Sheila Ysgol Pentrepoeth ac roedd yn aelod o gapel y Bedyddwyr, Soar Treforys, lle roedd ei thad yn ddiacon. Aeth yn ei blaen i Ysgol Ramadeg Llwyn-y-bryn. Yn ystod y cyfnod hwn roedd yn aelod brwd a bywiog o Aelwyd yr Urdd, Treforys, a oedd yn cwrdd yn y Tabernacl, o dan arweiniad David Gwyn John a Pam. Llwyddon nhw i ddenu criw mawr o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

Aeth Sheila yn ei blaen i goleg Cyncoed i gychwyn ar yrfa fel athrawes. Dysgodd yn nwyrain Llundain, mewn ysgol i blant anodd eu hymddygiad. Tra oedd yn Llundain cyfarfu â Robat Powell o Lyn Ebwy, a ddaeth yn athro, ysgolhaig a phrifardd. Gydag e y meistrolodd yr iaith.

Dychwelodd i Abertawe a dysgu yn Ysgol Clwyd. Cymerodd saib o'r gwaith i fagu ei phlant, Brieg, Dyfan a Meilir, a gafodd oll raddau doethur a Sheila wrth ei bodd yn rhannu helyntion ei meibion gyda'i chydnabod. Gorffennodd Sheila ei gyrfa ddysgu yn ei hoff ysgol, yng Nghwmgors.

Byddai Sheila wrth ei bodd yng nghwmni pobl, ac yn gymdoges gynnes a ffraeth yn nhraddodiad gorau Treforys.

Roedd ganddi ddiddordeb byw yn y Gymraeg, hanes lleol a Chymru a'r capel, a byddai wrth ei bodd hefyd yn dilyn yr Elyrch a thîm criced Treforys.

A hithau wedi bod mor llafar a ffraeth, roedd yn brofiad anodd i'w chydnabod weld effaith y clefyd creulon a ddygodd oddi arni ei huotledd, nes ei gwneud yn fud. Serch hynny, roedd ei hasbri, er ei llesgedd, i'w ganfod tan y diwedd.

Cymerwyd y gwasanaeth gan Dr Fiona Gannon gyda chymorrh y Parch Dewi Myrddin Hughes, a'r tri mab yn dwyn atgofion amdani. Hwythau a Roderick Evans oedd yn cludo'r arch.

Gedy Sheila ei gŵr, Robat, a wnaeth gymaint drosti yn ystod ei salwch, ei thri mab, eu gwragedd, Shabman, Catrin ac Anisha, a phump o wyrion, Aara, Anoush, Eiry, Elai ac Aneirin.

## Y CYNGERDD CAROLAU

**-ROB EVANS**

Dydw i ddim yn hollol siŵr pryd nes i ymuno â'r gwasanaeth Cymraeg yn eglwys Sant Iago, Abertawe ond mae o leiaf deg mlynedd wedi mynd heibio erbyn hyn. Ar y dechrau roedd pethau'n edrych yn iawn ond bob blwyddyn roedd rhywun yn ein gadael ni ac yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod chi wedi cyrraedd lle ble mae rhaid i chi gael gwaed newydd. Ond sut? Does dim ffordd hawdd.

Wedyn meddyliais am ein profiad efo'r grŵp Cymraeg yn Newton, rhywsut roedd llawer o Gymry Cymraeg wedi ymuno, llawer mwy na'r dysgwyr i ddweud y gwir. Dros amser sylweddolais pam – roedd gymaint yn yr ardal wedi colli cysylltiad â'r iaith ac yn awyddus i ail-gysylltu. Ac os yw hyn yn wir mewn un ardal mae'n debyg iawn i fod yn wir ym mhob ardal o Abertawe a thebyg iawn Cymru gyfan.

Beth am gael baner ar y reilen tu allan i ddweud bod gwasanaeth Cymraeg ar gael? Syml, rhad a siŵr o fod yn effeithiol. Ond na, doedd y cyngor ddim am gael baneri parhaol tu allan i'r eglwys. Mi oedd hysbyseb am ein gwasanaeth ar yr hysbysfwrdd tu ôl i'r reilen ond roedd yn llawer uwch na'r pafin a doedd neb yn ei weld. Mae'n rhwystredig iawn cael broblem a dim syniad sut i'w ddatrys!

Ond yn sydyn – beth am gael gwasanaeth Carolau – yn Gymraeg wrth gwrs?

Siaradais efo'r ddau ficer a chael ymateb cadarnhaol. Y nod oedd llenwi'r eglwys efo Cymry Cymraeg a dysgwyr, cael plant o un o'r ysgolion i'n diddanu a hefyd rhywun proffesiynol. Fel mae'n digwydd mae David Owen Lewis, baritone ac efo Opera North gynt, yn aelod o'n grŵp yn Newton. Roedd o yng nghyfarfod gyntaf y tymor o Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac es ato a gofyn a fysai'n hapus i'n helpu. Doedd dim angen ofyn dwywaith a dw i'n ddiolchgar iawn iddo. Roedd y parchedig John Walters, sydd yn cynnal ein gwasanaeth Cymraeg, wedi cysylltu ag Ysgol Gyfun Bryntawe ac roedden nhw'n hapus i ddanfon eu côr o ferched ac, yn sydyn, roedden ni ar ein ffordd.

Y peth nesaf oedd sicrhau cynulleidfa a chysylltais efo bob grŵp Cymraeg roeddwn i'n gallu meddwl amdano, a chodi baner, dros dro, ar y reilen tu allan.

Roedd y noson wedi cyrraedd o'r diwedd ac o'n i yn yr eglwys hanner awr cyn y dechrau. O fewn chwarter awr roedd nifer o bobl wedi cyrraedd a'r seddi yn dechrau llenwi, roedd popeth yn edrych yn addawol.

Aeth y noson yn arbennig o dda efo lleisiau hyderus Côr Merched Bryntawe yn ein swyno ni o'r llwyfan. Llais cryf David Owen Lewis efo Alun Tregelles Williams yn cyfeilio yn llenwi'r eglwys. A'r gynulleidfa? Yn amlwg roedden nhw wrth eu boddau ac yn canu'n iach!

Rhwng hyn oll roedd aelodau ein cynulleidfa ni yn darllen straeon y Geni o'r chwilio am lety hyd at y Gwŷr Doeth yn cyrraedd efo'u hanrhegion.
Hyn i gyd dan ofal meistrolgar y Parchedig John Walters sydd, er ei fod wedi ymddeol erbyn hyn, yn parhau i edrych ar ein holau yn ein gwasanaeth Cymraeg.
Ymunwch â ni – dyn ni'n cyfarfod am 9.00 ar y 1af, 3ydd a'r 5ed Sul y mis, Eglwys Sant Iago, Walter Road. Byddech yn sicr o gael croeso.



## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### YMGYRCH BANC BWYD Y CHWECHED

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Drwy fis Rhagfyr bu'r chweched yn brysur yn arwain ymgyrch i gasglu nwyddau ar gyfer banciau bwyd Penderri a Gellifedw.





Unwaith eto eleni cafwyd cefnogaeth arbennig ac yn ystod wythnos olaf y tymor aed â llond bws mini o nwyddau i Benderri ac yna llond bws mini arall i Gellifedw! Diolch i'r chweched am arwain ar y project cymunedol pwysig hwn.

### LLWYDDIANT YM MAES KARATE

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Freya a Niah Williams a Caian a Chloe Lewis ar eu llwyddiant diweddar tra'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Karate y byd o dan 21 yn Fenis. Mae hyn yn dilyn eu llwyddiant yng Nghyprus yn yr Hydref. Ymlaen i'r gystadleuaeth nesaf nawr!

### CYNRYCHIOLI CYMRU

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Ashley Griffiths o flwyddyn 12 sydd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru yn y garfan dan 17 mewn gwersyll hyfforddi ym Mhortiwgal ddiwedd Ionawr. Tipyn o gamp! Tra bydd hi yno bydd y tîm yn chwarae tair gêm. Pob lwc i ti Ashley!

## NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

### CYHOEDDI EISTEDDFOD DUR A MÔR 2025

-JEFFREY CONNICK, PENNAETH

Mae yr ysgol wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngweithgarwch cyhoeddi dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i ranbarth Gorllewin Morgannwg ym mis Mai 2025. Ar 25 Medi, mynychodd nifer o ddisgyblion a staff Cymanfa Ganu'r ŵyl groeso yn Eglwys Dewi Sant yng Ngastell Nedd, gyda nifer o ddisgyblion yn aelodau o gôr unedig ysgolion y rhanbarth. Yn ogystal, fe fynychodd nifer o ddisgyblion sy'n aelodau o 'griw Cymreictod' yr ysgol weithdai gyda'r cantorion Huw Chiswell a Bronwen Lewis i drafod cynnwys cân groeso'r Eisteddfod (yn hytrach na'r cywydd croeso arferol) a chanlyniad hyn i gyd oedd Cân y Croeso a lawnsiwyd yn swyddogol mewn digwyddiad yn Theatr Chiswell ar gampws Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera ar 16 Tachwedd. I hyrwyddo'r gân, fe gynhyrchwyd fideo a oedd yn rhoi lle amlwg i rai o gantorion a dawnswyr ieuanc yr ysgol. Ar 26 Tachwedd, cyfranodd rhai o ddisgyblion Bl 7 ac 8 at Orymdaith y Cyhoeddi ac i orffen digwyddiadau yr ŵyl gyhoeddi, ar noson 12 Rhagfyr, fe fydd côr yr ysgol yn rhan o gôr unedig ysgolion uwchradd rhanbarth Gorllewn Morgannwg yn canu'r oratorio modern Teilwng yw'r Oen yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe. Diolch yn arbennig i Non Lewis, cyd-gysylltydd Cymreictod yr ysgol, ac sy'n aelod brwd a gweithgar o'r pwyllgor gwaith, am sicrhau lle teilwng i'r ysgol yn yr ŵyl, a hefyd i Carwen George, Pennaeth yr Adran Gerdd am baratoi cymaint o'r disgyblion ar gyfer y gweithgareddau cerddorol niferus.

## NOSWEITHIAU AGORED 2024

-JEFFREY CONNICK, PENNAETH

Cynhaliwyd nosweithiau agored yr ysgol ar gyfer Bl 6 ar Hydref 8 a 14, a phenderfynwyd i fanteisio ar gyfle i ddilyn trefn newydd ar eu cyfer eleni. Cafwyd croeso ffurfiol gan y Pennaeth yn y Ffreutur i gychwyn y noson; cyflwyniad ar drefn ddyddiol a'r hyn y gall ddisgybl newydd ei ddisgwyl, gan y Dirprwy Bennaeth; yna cyflwyniadau gan y Prif Swyddogion ar eu profiadau personol, amrywiol yn yr ysgol.

Yna, rhannwyd y rhieni a'u plant i grwpiau i'w tywys gan staff ac aelodau'r chweched ar deithiau o gwmpas yr ysgol. Trefnodd adrannau arddangosfeydd a gweithgareddau i ddisgyblion allu cymryd rhan ynddynt ar eu taith, a chafodd rieni gyfle i sgyrsio gyda'r staff. Cafwyd gwledd o weithgareddau i greu argraff e.e. arbrofion gwyddoniaeth yn defnyddio llosgydd Bunsen; robotiaid digidol i'w rheoli yn rhan o'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg; arddangosfa gelf liwgar; blas ar gawl Hydrefol gyda rysait parod; datrys cliwiau i ddatgelu'r llofrudd ym MDaPh y Dyniaethau; a llawer mwy! Wrth i'r teithiau fynd yn eu blaenau, cafwyd cyflwyniad yn y Ffreutur ar faterion ADY gan Emma Morris, yr ALENCo, i unrhyw rai a oedd yn dymuno gwybodaeth ar y ddarpariaeth hon.

Yn ystod y nosweithiau hefyd, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu penblwydd yr ysgol yn 40 oed gan drefnu cystadleuaeth i ddisgyblion nodi ble fyddent yn gweld lluniau o gacennau oedd wedi eu cuddio ar draws yr ysgol. Y wobr i'r enillydd lwcus oedd cacen gan Mr Henry, a'r gacen i'w dosbarthu i'r disgybl yn yr ysgol gynradd. Tynnwyd lluniau a rhannwyd hyn ar Facebook fel modd ychwanegol o farchnata'r nosweithiau agored a'r ysgol.

Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i roi côd QR ar y taflenni a ddosbarthwyd i rieni ar y noson er mwyn iddynt roi eu hadborth ar y noswaith yn uniongyrchol. O'r canlyniadau a gasglwyd, roedd 100% o rieni yn dweud bod y noson wedi cwrdd â'u disgwyliadau; gyda 75% yn dweud mai cael cyfle i siarad gyda staff a chael gweld yr adrannau oedd yr elfennau oedd bwysicaf iddyn nhw. Gan gyfuno hyn gydag adborth ar lafar gan staff yr ysgol oedd wedi profi nosweithiau hwylus; a hefyd cydweithrediad a gweithgarwch arbennig y chweched dosbarth ar y nosweithiau, rhagwelwn y byddwn yn parhau gyda'r drefn hon ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Diolchwn yn arbennig i Rachel Nicholson, y cyd-gysylltydd pontio newydd, am yr holl waith caled ac am gynnig profiad newydd, hynod lwyddiannus i rieni a gwarcheidwaid y dyfodol.

## TAITH CHWARAEON I DUBAI AC ABU DHABI

-JEFFREY CONNICK, PENNAETH

Roedd taith chwaraeon yr ysgol i Dubai ac Abu Dhabi i ddisgyblion Blwyddyn 11 i 13 ym mis Hydref yn brofiad bythgofiadwy i bawb a aeth.

Roedd y daith yn gyfle unigryw i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cystadleuol, wrth archwilio diwylliant gwahanol. Gyda chymorth staff ymroddedig a chefnogaeth rhieni, bu'r daith yn llwyddiant ysgubol.

Chwaraeodd ein timau pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd a chricedyn erbyn gwrthwynebwyr o safon uchel, gan ennill profiadau gwerthfawr. Er nad oedd pob gêm yn fuddugoliaeth, dangosodd ein disgyblion sgiliau rhagorol, ysbryd tîm ac ymroddiad arbennig. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am y croeso cynnes gan ein gwrthwynebwyr sef Coleg Dubai, Ysgol Greenfields, Ysgol Sharjah, Ysgol GEMS Winchester, Clwb Criced y Desert Vipers, Ysgol North London Collegiate, Prifysgol Heriot-Watt, Clwb Pêl-rwyd Capitol ac Academi Rygbi Pinnackle.

Y tu hwnt i'r maes chwaraeon, treuliodd y disgyblion amser yn archwilio'r dinasoedd. Ymwelwyd â'r Burj Khalifa, lle'r oedd y golygfeydd o'r top yn syfrdanol, yna'r saffari yn y diffeithdir mewn cerbydau 4 x 4 a Mosg Sheikh Zayed. Cafwyd amser i fwynhau harbwr euraidd Dubai a chyfle i flasu bwydydd lleol, y parc dwr 'Wild Wadi' a chanolfan ddiwylliannol y Sheikh Mohammed er mwyn dysgu mwy am ddiwylliant a threftadaeth yr EAU.

Roedd y gweithgareddau hyn nid yn unig yn gyffrous ond hefyd yn addysgu'r disgyblion am ddiwylliant, hanes a ffordd o fyw'r Emiradau Arabaidd Unedig ac yn bendant wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach.

Yn ogystal, roedd y daith yn gyfle i ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol. Trwy deithio'n annibynnol oddi cartref, gweithio fel tîm a rheoli amser a chyfrifoldebau, cafodd y disgyblion brofiadau a fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Roedd hefyd yn gyfle i gryfhau perthnasau rhwng disgyblion a staff, gan hyrwyddo ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch. Mae'n sicr y bydd y daith yn aros yn atgof gwerthfawr i bawb a fu'n rhan ohoni.

Diolch yn arbennig i'r staff, sefBen Roberts, Chloe James, Bethan Davies, Sara Thomas, Emyr Myers, Iwan Thomas a Jonathan Thomas am yr holl drefniadau ac am arwain y daith mewn ffordd mor gyfrifol. Yn ogystal, bu ymddygiad y disgyblion yn rhagorol a gallwn fod yn falch iawn ohonynt fel llysgenhadon gwych dros eu gwlad a'u hiaith.

## DATHLU PENBLWYDD YR YSGOL YN 40 MLWYDD OED
## RHAGLEN DDATHLU 24-25
-JEFFREY CONNICK, PENNAETH

Mae'r ysgol eleni, 2024-25, yn cyrraedd carreg filltir bwysig yn ei hanes, sef ei phen blwydd yn 40 mlwydd oed. I ddathlu'r achlysur, fe gynhelir nifer o ddigwyddiadau nodedig. Eisoes, rydym wedi perfformio-am y tro cyntaf ers 2006-sioe gerdd, sef Nôl i'r 80au-teitl addas iawn. Dyma sioe a drosglwyddodd y gynulleidfa yn ôl, mewn ffordd ysgafn a lliwgar, i ddathlu dechreuadau'r ysgol (cewch fwy o hanes y cynhyrchiad hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.) Hefyd, cynhaliwyd cinio fawreddog yng Ngwesty'r Brenin Arthur yn Reynoldston ar 29 Tachwedd. Yno, ymgasglodd dros 100 o staff presennol a chyn-staff yr ysgol, ynghyd a llywodraethwyr, i gymdeithasu a hel atgofion. Cafwyd amser da gan bawb.

Ar y gorwel o hyd, ar 7 Chwefror 2025, yw gŵyl chwaraeon, sef gêmau rygbi a phêlrwyd rhwng disgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol, ac i ddiweddu'r flwyddyn, yn ysblander Neuadd y Brangwyn ar 3 Gorffennaf, cynhelir cyngerdd fawr i arddangos talentau cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol yr ysgol.

Eisoes mae Lowri Morgans a Rhys Williams, sy'n gyn-ddisgyblion ond erbyn hyn hefyd yn wynebau cyfarwydd ar deledu Cymru a thu hwnt, wedi cytuno i gyd-gyflwyno. Yn ogystal, mae'r cyn-ddisgybl a'r gantores fyd enwog, Elin Manahan Thomas, wedi cytuno i berfformio. Yn ychwanegol, y mae Dirprwy Bennaeth yr ysgol, Gareth Williams yn cydweithio gydag un o'n cyn Dirprwy Benaethiaid mwyaf adnabyddus a'r cyfansoddwr enwog, Eric Jones, i greu darn corawl i ddathlu llwyddiant addysg Gymraeg yn Abertawe. Perfformir y darn gan gôr unedig o staff a disgyblion, presennol a gorffennol, ar y noson. Yn ychwanegol i hyn i gyd, fe fydd disgyblion presennol yr ysgol yn canu a llefaru. Gobeithio y cytunwch fod y rhaglen yn un addas i ddathlu llwyddiant yr ysgol arbennig hon.

## NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

### CLYBIAU PONTIO

Mae ein clybiau pontio ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 yn ôl eleni ac mae'r sesiwn gyntaf ar gael i archebu nawr! Sesiwn hwyliog o gemau er mwyn rhoi'r cyfle i'r disgyblion greu ffrindiau newydd a dod i arfer gyda champws eu hysgol uwchradd.

11.02 | Gŵyr

13.02 | Bryn Tawe

Archebu trwy menterabertawe.org/archebu







### GIGS

24.01 - Meinir Gwilym (Tŷ Tawe)

28.01 - IVW25: Burum (Tŷ Tawe)

06.02 - Dysgu Cymraeg: Tara Bandito (Tŷ Tawe)


07.02 - DMC: Neil Rosser + Hari Powell (Tŷ Tawe)

17.02 - Kizzy Crawford (The Overdraft)










Tocynnau:https://linktr.ee/MenterIaithAbertawe




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Ionawr. Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Ionawr 30ain trwy ebostio Anys at: **datblygu@menterabertawe.org** Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

DYDD MIWSIG CYMRU | WELSH LANGUAGE MUSIC DAY



# NEIL ROSSER

Y STRAEON TU ÔL I'R CANEUON



+ HARI POWELL

07.02.25

TŶ TAWE - £8







MENTERABERTAWE.ORG

menter iaith abertawe

TŶ TAWE